

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 4 – Ty Hywel

Dyddiad:
Dydd Llun, 17 Rhagfyr 2012

Amser:
14:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Gareth Williams
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

Agenda

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant
2. Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol

**CLA198 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 (Saesneg yn unig) (Tudalennau 1 – 5)
Eitem 2.1**

CLA198 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 (Saesneg yn unig)

Y weithdrefn gadarnhaol. Ni nodwyd y dyddiad y'u gwnaed. Ni nodwyd y dyddiad y'u gosodwyd. Ni nodwyd y dyddiad y byddant yn dod i rym.

CLA(4)–27–12 Papur 1– Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol

**CLA197 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 (Saesneg yn unig) (Tudalennau 6 – 10)
Eitem 2.2**

CLA197 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 (Saesneg yn unig)

Y weithdrefn gadarnhaol. Ni nodwyd y dyddiad y'u gwnaed. Ni nodwyd y dyddiad y'u gosodwyd. Ni nodwyd y dyddiad y byddant yn dod i rym.

CLA(4)-27-12 Papur 2 – Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol

Papurau ychwanegol i'w nodi (Tudalennau 11 – 20)

Papurau:

CLA(4)-27-12 Papur 3 – Llythyr at y Cadeirydd gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, 5 Tachwedd 2012 (Saesneg yn Unig)

CLA(4)-27-12 Papur 4 – Llythyr at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau gan y Cadeirydd, 9 Tachwedd 2012 (Saesneg yn Unig)

CLA(4)-27-12 Papur 5 – Llythyr at y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, 12 Rhagfyr 2012

CLA(4)-27-12 Papur 6 – Nodyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Trawsgrifiad

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

Eitem 2.1

Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol MCD

Teitl: Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod y fframwaith ymarferol y bydd cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yn gweithredu o'i fewn yng Nghymru ar ôl diddymu system bresennol budd-dal y dreth gyngor. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol fabwysiadu cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor sy'n cynnwys ystod gyfyngedig o elfennau dewisol er mwyn iddynt allu rhoi cymorth o ran y dreth gyngor.

Yn unol â'r darpariaethau yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (y Ddeddf) sy'n diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, bydd Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 ("rheoliadau'r gofynion rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 ("rheoliadau'r cynllun diofyn") yn llywodraethu'r broses o gyflwyno a gweithredu cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru.

Mae Adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992"), a ddisodlwyd gan adran 9 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012, yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn â chynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru lunio cynllun sy'n pennu'r gostyngiadau a fydd yn berthnasol i symiau'r dreth gyngor a fydd yn daladwy gan bobl, neu gan ddosbarthiadau o bobl, yr ystyrir eu bod mewn angen ariannol. Mae paragraffau 2 i 7 o Atodlen 1B i Ddeddf 1992 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi drwy reoliadau, y materion hynny y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cynllun, ynghyd â gofynion ychwanegol y mae'n rhaid eu cynnwys neu beidio â'u cynnwys mewn cynllun.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a diffiniadau o eiriau a chymalau allweddol. Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â gofynion cynllun yng nghyswllt awdurdodau bilio yng Nghymru, gan gynnwys dosbarthiadau o bobl, gostyngiadau a gofynion gweithdrefnol y cynllun. Mae Rhan 3 yn rhagnodi'r dosbarthiadau o bobl y mae'n rhaid i awdurdod eu cynnwys mewn cynllun. Mae Rhan 4 yn rhagnodi'r dosbarthiadau o bobl y mae'n rhaid i awdurdod beidio â'u cynnwys mewn cynllun.

Mae Rhan 5 ac Atodlenni 1 i 5 yn rhagnodi'r materion ynglŷn â phensiynwyr y mae'n rhaid i awdurdod eu cynnwys yn ei gynllun. Mae Atodlenni 1 i 5 yn rhestru'r rheolau sy'n berthnasol i benderfynu a yw pensiynwyr yn gymwys i gael gostyngiad a faint o ostyngiad a gânt o dan gynllun, ac maent yn amlinellu sut y mae'n rhaid ymdrin ag incwm a chyfalaf pensiynwyr wrth gyfrifo cymhwysedd ar gyfer gostyngiad.

Mae Rhan 5 ac Atodlenni 6 i 10 yn rhagnodi'r materion ynglŷn â phobl nad ydynt yn bensiynwyr y mae'n rhaid i awdurdod eu cynnwys yn ei gynllun. Mae Atodlenni 6 i 10 yn rhestru'r rheolau sy'n berthnasol i benderfynu a yw pobl nad ydynt yn bensiynwyr yn gymwys ar gyfer gostyngiad a faint o ostyngiad a gânt o dan gynllun, ac maent yn dweud sut y mae'n rhaid ymdrin ag incwm a chyfalaf pobl nad ydynt yn bensiynwyr wrth gyfrifo cymhwysedd ar gyfer gostyngiad, gan gynnwys mewn achosion lle y dyfernir credyd cynhwysol i rywun nad yw'n bensiynwyr neu i bartner.

Mae Atodlen 11 yn darparu ar gyfer cymhwyso'r cynllun i fyfyrwyr.

Mae Rhan 5 ac Atodlenni 12 i 14 yn cynnwys materion yn ymwneud â'r holl ymgeiswyr y mae'n rhaid i awdurdod eu cynnwys yn ei gynllun.

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Materion Technegol: Craffu

O dan Reol Sefydlog 21.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Nid yw'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud yn ddwyieithog.

[Rheol Sefydlog 21.2(ix) - nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg].

Mae Paragraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio pam nad yw'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud yn ddwyieithog:

“Because of the length and technical complexity of the regulations, the timeframes within which they have been compiled and the fact that they draw on council tax benefit regulations for which there is no existing translation, it has not been possible to arrange for the Regulations to be provided in Welsh.”

2. Ar dudalennau 96 a 97, (Atodlen 6, Paragraff 19) cyfeirir at reoliadau 75(1)(a)(ii), 75(1)(a)(iv) a 75(1)(b)(ii) o Reoliadau Lwfans Ceisio Gwaith 1996. Yn wir, dylai'r cyfeiriadau hyn fod at reoliadau 75(1)(a) a 75(1)(b) yn lle hynny.

[Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol]

3. Mae'r pwynt adrodd hwn yr un fath â'r un y cyfeirir ato uchod ond mae'n digwydd mewn rhan wahanol o'r testun. Ar dudalen 109 (Atodlen 6, paragraff 30) cyfeirir at reoliad 75(1)(a)(ii), 75(1)(a)(iv) a 75(1)(b)(ii) o Reoliadau Lwfans Ceisio Gwaith 1996. Yn wir, dylai'r cyfeiriadau hyn fod at reoliad 75(1)(a) a 75(1)(b) yn lle hynny.

[Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

4. Ar dudalen 134 (Atodlen 8, paragraff 18(c)) cyfeirir at reoliad 18(3) o Reoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) 2002. Yn wir, mae'r ddarpariaeth hon wedi cael ei diddymu gan reoliad 2(19) Rheoliadau Credydau Treth (Diwygiadau Amrywiol) 2012. Roedd y ddarpariaeth hon yn caniatáu i hawl wyr gael rhagor o fudd-dal/gostyngiad yn y Dreth Gyngor.

[Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod ei waith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

Rhinweddau: Craffu

O dan Reol Sefydlog 21.3, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Mae dwy set o reoliadau'r Dreth Gyngor wedi'u gosod gerbron i'w cymeradwyo, sef rheoliadau'r gofyniad rhagnodedig a rheoliadau'r cynllun diofyn. Mae rheoliadau'r gofyniad rhagnodedig yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol unigol yng Nghymru greu cynlluniau lleol, ac maent hefyd yn pennu nifer o feysydd a fydd yn destun disgrisiwn lleol. Daw rheoliadau'r cynllun diofyn i rym os bydd awdurdodau lleol yn dewis peidio â mabwysiadu eu cynlluniau hwy eu hunain neu os na fyddant yn mabwysiadu cynlluniau o fewn y cyfnod gofynnol.

Os bydd awdurdodau lleol yn dymuno mabwysiadu eu cynlluniau hwy eu hunain o dan reoliadau'r gofynion rhagnodedig, yna, noda rheoliad 13 "*each authority in Wales must make a scheme no later than the 31st January 2013, and the first financial year to which that scheme relates must be the year beginning 1 April 2013*". Oni bai bod Awdurdodau Lleol eisoes wedi dechrau gwneud eu paratodau eu hunain ar gyfer y cynlluniau, yna mae'r amser yn brin iawn iddynt fabwysiadu eu cynlluniau hwy eu hunain. Mae'r math o newidiadau a'r gwaith y rhagwelir y bydd angen i Awdurdodau Lleol eu gwneud er mwyn mabwysiadu eu cynlluniau eu hunain i'w gweld ar dudalennau 12 ac 13 o'r Memorandwm Esboniadol lle y ceir tabl sy'n rhestru amcangostau newid o system bresennol budd-dal y dreth gyngor i gynllun newydd (costau'r cyfnod pontio). Dyma ambell enghraifft o'r newidiadau hyn: newidiadau i system TG pob awdurdod lleol, modelu meddalwedd newydd, hyfforddi staff a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynlluniau newydd drwy sawl gwahanol gyfrwng.

2. Ailgyflwynwyd y ddwy set o reoliadau ar y 12^{fed} o Ragfyr 2012. Y gwelliant sylweddol i reoliadau'r gofynion rhagnodedig oedd bod cymal "machlud" wedi'i gynnwys yn rheoliad 1. Noda Rheoliad 1(3) "*These Regulations apply in relation to the financial year beginning on 1 April 2013*". Mae hyn yn cyfyngu ar gymhwyso'r Rheoliadau hyn, a daw eu grym i ben am hanner nos 31 Mawrth 2014. Noda Rheoliad 1(4) "*On or before 1 January 2014 the Welsh Ministers must publish draft regulations under section 13A(4) of the 1992 Act in respect of the financial year beginning 1 April 2014 and subsequent financial years*". Mae hyn yn golygu y caiff rheoliadau'r gofynion rhagnodedig eu hailddrafftio a'u cyhoeddi erbyn neu cyn y cyntaf o Ionawr y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r Cynulliad ailystyried rheoliadau'r gofynion rhagnodedig drafft yn y dyfodol a chraffu arnynt mewn da bryd. Mae'r memorandwm esboniadol wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau uchod (paragraffau 6, 7 ac 8).

Nid oes diwygiadau wedi'u gwneud i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 gan nad oedd angen unrhyw ddiwygiadau. Effaith paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yw mai dim ond os digwydd i awdurdod lleol fethu â chydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a bennir mewn rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyflwyno cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor y bydd unrhyw gynllun diofyn a ragnodir mewn rheoliadau yn berthnasol. Felly, dim ond yn ystod y cyfnod pan fydd rheoliadau'r gofynion rhagnodedig, sy'n gorfodi'r

ddyletswydd i gael cynllun, yn berthnasol y bydd gan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 effaith ymarferol sef, yn unol â rheoliad 1(3) o'r rheoliadau hynny, y flwyddyn ariannol 2013-14.

3. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu'r gwahanol opsiynau ar gyfer gwneud y Rheoliadau hyn a'r canlyniadau posibl. Mae Tudalen 11 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod diffyg yn yr arian a ddaw gan Drysorlys Ei Mawrhydi sy'n golygu, o hyn ymlaen, y bydd yn rhaid i bobl sy'n hawlio cymorth o dan gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor dalu cyfran o'u bil treth gyngor hwy eu hunain. Noda'r Memorandwm Esboniadol *"due to the funding available, the new scheme will mean that approximately 70% of current Council Tax Benefits (CTB) claimants in Wales will have to pay council tax for the first time and as a result local authorities are expecting that their council tax collection rates could fall and the costs of collecting this additional council tax could rise"*. Amcangyfrifir bod disgwyl i'r cyfraddau a gesglir ostwng hyd 1.5%.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Rhagfyr 2012

Ymateb y Llywodraeth i ddilyn

Eitem 2.2

Adroddiad Drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol MCD

Teitl: Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012

Mae'r Rheoliadau hyn, a wnaethpwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1992 ('Deddf 1992) yn amlinellu'r cynllun diofyn a ddaw i rym pe bai unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru yn methu â mabwysiadu ei gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ei hun o dan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig) (Cymru) 2012 ('Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig') erbyn 31 Ionawr 2013.

Felly, dim ond yn ystod y cyfnod pan fydd Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig, sy'n gorfodi'r ddyletswydd i gael cynllun, yn berthnasol y bydd gan y Rheoliadau hyn effaith ymarferol sef, yn unol â rheoliad 1(3) o'r rheoliadau hynny, y flwyddyn ariannol 2013-14.

Amlinellir y cynllun diofyn a ragnodir gan Weinidogion Cymru yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn. Mae Rhannau 1 a 2 yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a diffiniadau o eiriau a chymalau allweddol.

Mae Rhan 3 ac Atodlen 1 yn cynnwys y weithdrefn ar gyfer ceisiadau am ostyngiadau ac apeliadau. Mae Rhannau 4 a 5 yn pennu'r dosbarthiadau o bobl y mae ganddynt hawl neu nad oes ganddynt hawl i gael gostyngiad o dan y cynllun, yn y drefn honno.

Mae Rhannau 6 i 8 ac Atodlenni 2 a 3 yn amlinellu'r materion sy'n berthnasol i benderfynu ar gymhwysedd pobl i gael gostyngiad a faint o ostyngiad a gânt o dan gynllun.

Mae Rhan 9 ac Atodlenni 4 i 9 yn amlinellu sut y caiff incwm a chyfalaf yr ymgeisydd ac eraill ei drin wrth gyfrifo cymhwysedd ar gyfer gostyngiad, gan gynnwys mewn achosion lle y dyfernir credyd cynhwysol i ymgeisydd neu i bartner.

Mae Rhan 10 yn darparu ar gyfer cymhwyso'r cynllun i fyfyrwyr. Mae Rhan 11 yn darparu ar gyfer gostyngiadau estynedig mewn rhai amgylchiadau ac mae Rhan 12 yn amlinellu cyfnod yr hawliad a sut y mae newid mewn amgylchiadau'n effeithio ar ostyngiad.

Mae rhan 13 o'r cynllun yn darparu ar gyfer gwneud cais am ostyngiad. Mae rhan 14 yn amlinellu'r amser a ganiateir i awdurdod wneud penderfyniad ar

gais ac yn darparu ar gyfer hysbysu ymgeiswyr am y penderfyniad. Mae Rhan 15 yn gwneud darpariaeth am y dyfarniad neu'r taliad.

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Materion Technegol: Craffu

O dan Reol Sefydlog 21.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Nid yw'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud yn ddwyieithog.

[Rheol Sefydlog 21.2(ix) - nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg].

Mae Paragraff 4 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio pam nad yw'r Rheoliadau hyn wedi'u gwneud yn ddwyieithog:

“Because of the length and technical complexity of the regulations, the timeframes within which they have been compiled and the fact that they draw on council tax benefit regulations for which there is no existing translation, it has not been possible to arrange for the Regulations to be provided in Welsh.”

2. Ar Dudalen 52, Pennod 5, Paragraff 53 4 (c) o'r Cynllun a amlinellir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn cyfeirir at reoliad 75 (1)(a) (ii), 75 (1) (a)(iv) a 75 (1)(b) (ii) o Reoliadau Lwfans Ceisio Gwaith 1996. Yn wir, dylai'r cyfeiriadau hyn fod at reoliadau 75 (1)(a) a 75(1)(b) yn lle hynny.

[Rheol Sefydlog 21.2 (vi) - ei bod yn ymddangos bod ei waith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol]

3. Mae'r pwynt adrodd hwn yr un fath â'r un y cyfeirir ato uchod ond mae'n digwydd mewn rhan wahanol o'r testun. Ar dudalennau 65 a 66, Pennod 7, Paragraff 6 (b) cyfeirir at reoliad 75 (1)(a)(ii), 75 (1)(a)(iv) a 75 (1)(b)(ii) o Reoliadau Lwfans Ceisio Gwaith 1996. Yn wir, dylai'r cyfeiriadau hyn fod at reoliad 75 (1)(a) a 75 (1)(b) yn lle hynny.

[Rheol Sefydlog 21.2 (vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

4. Ar dudalen 133 (Atodlen 6, paragraff 18(c)) o'r Cynllun cyfeirir at reoliad 18(3) o Reoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) 2002. Yn wir, mae'r ddarpariaeth hon wedi cael ei diddymu gan reoliad 2(19) Rheoliadau Credydau Treth (Diwygiadau Amrywiol) 2012. Roedd y ddarpariaeth hon yn caniatáu i hawlwr gael rhagor o fudd-dal/gostyngiad yn y Dreth Gyngor.

[Rheol Sefydlog 21.2 (vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio'n ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol].

Rhinweddau: Craffu

O dan Reol Sefydlog 21.3, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-

1. Mae dwy set o reoliadau'r Dreth Gyngor wedi'u gosod gerbron i'w cymeradwyo, sef Rheoliadau'r Gofyniad Rhagnodedig a rheoliadau'r cynllun diofyn. Mae Rheoliadau'r Gofyniad Rhagnodedig yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol unigol yng Nghymru greu cynlluniau lleol, ac maent hefyd yn pennu nifer o feysydd a fydd yn destun disgresiwn lleol. Daw rheoliadau'r cynllun diofyn i rym os bydd awdurdodau lleol yn dewis peidio â mabwysiadu eu cynlluniau hwy eu hunain neu os na fyddant yn mabwysiadu cynlluniau o fewn y cyfnod gofynnol.

Os bydd awdurdodau lleol yn dymuno mabwysiadu eu cynlluniau hwy eu hunain o dan Reoliadau'r Gofynion Rhagnodedig, yna noda rheoliad 13 "*each authority in Wales must make a scheme no later than the 31st January 2013, and the first financial year to which that scheme relates must be the year beginning 1 April 2013*". Oni bai bod Awdurdodau Lleol eisoes wedi dechrau gwneud eu paratodau eu hunain ar gyfer y cynlluniau, yna mae'r amser yn brin iawn iddynt fabwysiadu eu cynlluniau hwy eu hunain. Mae'r math o newidiadau a'r gwaith y rhagwelir y bydd angen i Awdurdodau Lleol eu gwneud er mwyn mabwysiadu eu cynlluniau eu hunain i'w gweld ar dudalennau 12 ac 13 o Femorandwm Esboniadol Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig lle y ceir tabl sy'n rhestru amcangostau newid o system bresennol budd-dal y dreth gyngor i gynllun newydd (costau'r cyfnod pontio). Dyma ambell enghraifft o'r newidiadau hyn: newidiadau i system TG pob awdurdod lleol, modelu meddalwedd newydd, hyfforddi staff a rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynlluniau newydd drwy sawl gwahanol gyfrwng.

2. Ailgyflwynwyd y ddwy set o Reoliadau ar y 12^{fed} o Ragfyr 2012. Y gwelliant sylweddol i Reoliadau'r Gofynion Rhagnodedig oedd bod cymal "machlud" wedi'i gynnwys yn rheoliad 1. Noda Rheoliad 1(3) "*These Regulations apply in relation to the financial year beginning on 1 April 2013*". Mae hyn yn cyfyngu ar gymhwyso Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig a daw eu grym i ben am hanner nos 31 Mawrth 2014. Noda Rheoliad 1(4) "*On or before 1 January 2014 the Welsh Ministers must publish draft regulations under section 13A(4) of the 1992 Act in respect of the financial year beginning 1 April 2014 and subsequent financial years*". Mae hyn yn golygu y caiff Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig eu hailddrafftio a'u cyhoeddi erbyn neu cyn y cyntaf o Ionawr y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r Cynulliad ailstyried Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig ymhen blwyddyn. Mae memorandwm esboniadol Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau uchod (paragraffau 6, 7 ac 8).

Nid oes diwygiadau wedi'u gwneud i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 gan nad oedd angen unrhyw ddiwygiadau. Effaith paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yw mai dim ond os digwydd i awdurdod lleol fethu â chydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a bennir mewn rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyflwyno cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor y bydd unrhyw gynllun diofyn a ragnodir mewn rheoliadau yn berthnasol. Felly, dim ond yn ystod y cyfnod pan fydd y rheoliadau Gofynion Rhagnodedig, sy'n gorfodi'r ddyletswydd i gael cynllun, yn berthnasol y bydd gan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 effaith ymarferol sef, yn unol â rheoliad 1(3) o'r rheoliadau hynny, y flwyddyn ariannol 2013-14.

3. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu'r gwahanol opsiynau ar gyfer gwneud Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig a'r canlyniadau posibl. Mae Tudalen 11 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod diffyg yn yr arian a ddaw gan Drysorlys Ei Mawrhydi sy'n golygu, o hyn ymlaen, y bydd yn rhaid i bobl sy'n hawlio cymorth o dan gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor dalu cyfran o'u bil treth gyngor hwy eu hunain. Noda'r Memorandwm Esboniadol "*due to the funding available, the new scheme will mean that approximately 70% of current Council Tax Benefits (CTB) claimants in Wales will have to pay council tax for the first time and as a result local authorities are expecting that their council tax collection rates could fall and the costs*

of collecting this additional council tax could rise". Amcangyfrifir bod disgwyl i'r cyfraddau a gesglir ostwng hyd 1.5%.

Cynghorwyr Cyfreithiol

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Rhagfyr 2012**

Ymateb y Llywodraeth i ddilyn

Eitem 2.3

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

David Melding AM,
Chair of the Constitutional and
Legislative Affairs Committee
29 High Street
Barry
CF62 7EB

 November 2012

I am writing to you in relation to two sets of Regulations; the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales Regulations) and the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements) (Wales Regulations); in order to apprise you of the timing issues that we are facing in respect of laying these Regulations.

As a result of these constraints, which I set out in detail below, and the significant impact for local authorities if the Regulations are not able to come into force by 1st December, I am writing to ask whether you would be prepared to agree a date upon which the Constitutional and Legislative Affairs Committee will receive these Regulations for consideration and to agree a further date by which the Committee will prepare its report in respect of the same.

The Local Government Finance Act 2012

As you are aware I sought amendments to the Local Government Finance Act (the Act) to equip Welsh Ministers with executive powers to introduce council tax reduction schemes in Wales via secondary legislation, in order to replace the existing council tax benefit system that is being abolished by the UK Government. A Legislative Consent Motion on the provisions of the Bill that were within the legislative competence of the National Assembly for Wales (NAW) was approved by the Assembly on 26th June.

Whilst the Bill was supposed to achieve Royal Assent before the summer recess, it was ultimately deferred due to a number of outstanding issues within the Bill, most of which did not concern the provisions relating to the introduction of council tax reduction schemes. It received Royal Assent on 1st November.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence: Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

In line with the provisions in the Act and, subject to the will of Parliament, I intend to bring forward two main sets of Regulations which will govern the operation of council tax reduction schemes in Wales. These Regulations are designed to ensure that councils introduce some form of council tax support.

- The first set of Regulations (the "prescribed requirements Regulations") will place a duty upon local authorities in Wales to introduce a council tax reduction scheme in their area by the 31st January 2012. These Regulations will prescribe elements which local authorities must include within the schemes they introduce, but will also permit a limited amount of local discretion.
- The second set of Regulations (the "default scheme Regulations") will set out in full the council tax reduction scheme that will take effect in any local authority area in the event that a local authority does not adopt its own scheme by 31st January 2013. This date has been set so that any reductions enabled by the schemes can be reflected within the calculation of council tax liability prior to the council tax bills for 2013-2014 being issued.

Timing Concerns

In order for local authorities to make their preparations to adopt their local schemes by 31st January 2013, which, in accordance with the prescribed requirements Regulations, they are required to consult on, it is considered necessary that both sets of Regulations will have to come into force by 1st December. As both sets of Regulations are subject to the affirmative procedure this requires there to be a plenary debate on them by the 27th November at the latest.

However for a plenary debate to be held on the 27th November, in order to comply with Standing Orders the latest date that the Regulations could be laid on is 6th November and due to circumstances outside of my control it is becoming increasingly likely that the Regulations will not be finalised by the 6th November. There are three main reasons for this:

- **The financial transfer.** The approach in Wales relies on a single national framework scheme, which rebates a maximum percentage of an applicant's council tax liability, and the maximum percentage rebate will be calculated to take into account the shortfall in funding provided by the UK Government. This maximum percentage figure must be specified within the Regulations. However, whilst DWP and HMT have provided provisional funding figures, the transfer may not be finalised until the Autumn Statement scheduled for 5th December. Therefore the actual shortfall – and the final percentage to be set in the Regulations – might not be known until this date.
- **Finalising the Regulations.** Preparing the Regulations has been a highly complex and demanding task requiring detailed knowledge of the UK benefit system. It has therefore been necessary to rely on many of the previous elements of the old Council Tax Benefit Regulations, and to replicate them, with amendments, in new Regulations. The Regulations also need to take account of the introduction of Universal Credit, which is being developed by central government. To assist in developing the technical aspects of the scheme, such as the method to be adopted in calculating income, my officials have had to have regard to the draft Regulations which England are preparing, as they have the benefit of the input of colleagues in DWP. In order to finalise the Wales Regulations my officials had hoped to see finalised versions of the England Regulations by the end of October however, these have been delayed.

Implications if the Regulations cannot come into force by 1st December

If it is not possible for the Regulations to come into force by the 1st December there will be significant adverse implications for local authorities, and potentially for claimants. It will reduce the time in which local authorities will be required to introduce their schemes, including the time available to undertake local consultation, and depending on when the Regulations come into force, it may prove impossible for them to meet the 31st January 2013 deadline.

In that instance it may be necessary to revisit the Regulations with a view to delaying this implementation date. This however, will impact on the authorities' ability to issue council tax bills which has severe financial implications for local authorities. Furthermore it is likely to mean that current CTB claimants who will experience a change in the level of assistance they receive with their council tax bills will have less notification of the financial impact. As a result I am extremely keen to avoid a situation whereby these Regulations have to be delayed.

Mitigating the timing issues

I have sought advice on how the timing issues could be mitigated and have been advised that if the Constitutional and Legislative Affairs Committee was prepared to agree in advance a date upon which the Committee will receive and consider the Regulations, after the 6th November, and the date by which the Committee will prepare its report, then a later laying date could be achieved as in that instance it would not be necessary to observe the 20 day period before the holding of the plenary debate. In order to assist the Committee in considering these Regulations my officials would be happy to provide a technical briefing.

While I recognise that this is an unusual request, given the significant challenges we are facing in ensuring a viable replacement scheme is in place prior to the abolition of council tax benefit, I hope that it is one that you are prepared to consider.

Welsh Language Regulations

Finally I would like to give you prior notice that Welsh language versions of the Regulations will not be produced and that this may extend to all of the Regulations drafted to bring the new schemes into effect.

While this is extremely regrettable, given the very short timescales within which it has been necessary to produce the draft Regulations together with their length and complexity and the fact that the current CTB Regulations are only available in English so there is no existing translation to assist the translators, Legislative Translation Services have advised my officials that it is not possible to translate the Regulations into Welsh within the timescales required. In fact I am advised that in order for the Legislative Translation Services to have been in a position to have provided translated version of the Regulations, due to their length and complexity they would have had to have received finalised versions of both sets of Regulations by the May 2012. At that time we had not secured powers within the Bill to introduce Regulations in Wales.

The use of an external translator has also been considered, however there are only a limited number of translators who undertake legislative translation and they too are unable to translate the Regulations into Welsh within the timescales required. My officials will discuss the possibility of one of the local authorities in Wales providing a Welsh translation of the Regulations for everyday use, but even if they are willing to do this it is unlikely that such a translated version of the Regulations would be finalised before next year.

I will also be writing in similar terms to the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carl Sargeant'.

Carl Sargeant AC / AM

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Carl Sargeant AM
Minister for Local Government and Communities
Welsh Government
5th Floor, Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



9 November 2012

Dear Carl

**The Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) Wales Regulations
and the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements) Wales
Regulations**

Thank you for your letter of 5 November about the above Regulations.

I appreciate the difficulties you face as you have outlined in your letter. We will always endeavour to work flexibly to assist the Welsh Government and, as such, to consider Statutory Instruments in a shorter period than the 20 days set by standing orders (particularly where the instrument in question is short or we have considered it in draft). However, we must also balance this approach against our obligations to scrutinise legislation effectively and in an open and transparent way.

I understand that each set of Regulations is some 200 pages long and, as you indicate in your letter, that they are complex in nature. Furthermore, it is not expected that the Regulations will be laid before the National Assembly until the 15 or 16 November.

Regrettably, for these reasons, I cannot guarantee that the Committee will be in a position to consider and report on these Regulations within the timeframe proposed by your letter.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
E-bost / Email: olga.lewis@wales.gov.uk

Nevertheless, please be assured that as soon as the Regulations are laid before the National Assembly, they will be reviewed and brought to the attention of the Committee as soon as possible.

I am copying this letter to the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "David Melding". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping underline that extends to the right.

David Melding AM
Chair



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
Holl Aelodau'r Cynulliad

12 Rhagfyr 2012

Annywl Cydweithiwr,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu fy mod heddiw wedi gosod y fersiwn ddiwygiedig o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012. Mae'r Rheoliadau hyn a'u Memoranda Esboniadol ar gael ar y dudalen Dogfennau a Osodwyd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn <http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm>.

Mae'r diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 o'u cymharu â'r rhai a osodwyd gerbron ar 5 Rhagfyr 2012 i'w gweld isod:-

- 1(3) These Regulations apply in relation to the financial year beginning on 1 April 2013.
- 1(4) On or before 1 January 2014 the Welsh Ministers must publish draft regulations under section 13A(4) of the 1992 Act in respect of the financial year beginning 1 April 2014 and subsequent financial years.

Effaith ymarferol y cymal machlud yn rheoliad 1(3), a'r ddyletswydd yn rheoliad 1(4) i gyhoeddi set newydd o reoliadau drafft erbyn 1 Ionawr 2014, yw sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno rheoliadau dilynol mewn da bryd, fel y gellir craffu'n llawn ar gynlluniau mewn da bryd cyn eu cyflwyno yn y dyfodol.

Diwygiwyd y Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â hwy hefyd, i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Rwyf hefyd wedi ailosod Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012. Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau hyn, gan nad oes

angen unrhyw rai. Effaith paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yw mai dim ond os bydd awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a nodir mewn rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyflwyno cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor, y bydd unrhyw gynllun diofyn a ragnodir mewn rheoliadau yn dod i rym. Dim ond yn ystod y cyfnod y bydd y rheoliadau Gofynion Rhagnodedig sy'n gosod y ddyletswydd i fod â chynllun yn gymwys, y bydd Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 yn cael unrhyw effaith ymarferol felly. Blwyddyn ariannol 2013-14 yw'r cyfnod hwnnw, yn rhinwedd rheoliad 1(3) o'r rheoliadau hynny.

Diweddarwyd y Nodyn Esboniadol i'r rheoliadau Cynllun Diofyn er mwyn egluro'r pwynt hwn, a cheir manylion pellach am hyn yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â hwy.

A handwritten signature in black ink on a light background. The signature consists of a large, stylized capital letter 'J' followed by the name 'Hutt' in a cursive script.

Jane Hutt AC / AM

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House

Note for Constitutional & Legislative Affairs Committee

1. This document provides an overview of the amendments that have been made to the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2012 and the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2012 and their accompanying Explanatory Memoranda, following the amendments made to insert a sunset clause.

Amendments Made To the Prescribed Requirements Regulations

2. As a result of the First Minister's request the following amendments have been made to the Prescribed Requirements regulations:
 - Insertion of Regulation 1(3) which limits the applicability of the regulations to the financial year 2013-14;
 - Insertion of Regulation 1(4) which places a duty on Welsh Ministers to publish a new draft set of regulations on or before 1 January 2014 that will make provision for subsequent financial years;
 - Revision of the Explanatory Note to refer to the new regulations
3. Paragraphs 6-8 have also been inserted to the Explanatory Memorandum explaining the purpose and intended effect of Regulation 1(3) and 1(4)
4. As a result of making amendments to limit the applicability of the regulations to one financial year it has been necessary to make the following minor amendments to the regulations:
 - Minor amendment to regulation 13 to specify that the financial year to which the scheme made under the regulations is to relate, is to be the financial year beginning on 1st April 2013.
 - Deletion of regulation 17 which relates to a duty to review schemes on an annual basis and amend/replace schemes if necessary. As the regulations are to be limited to one year, this regulation is no longer appropriate.

Amendments Made to the Default Scheme Regulations

5. No amendments have been made to the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2012 as none are required.
6. By virtue of paragraph 6(1)(e) of Schedule 1B to the Local Government Finance Act 1992, a default scheme will only apply in the event that an authority fails to comply with any duty set out in regulations requiring an authority to introduce a council tax reduction scheme. Therefore, if the regulations requiring the introduction of a scheme are applied only for a limited time, as is the case in relation to the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirement (Regulations) 2012 (regulation 1(3)), then the default scheme regulations only have practical effect during that time.

7. To clarify this point a paragraph has been inserted into the Explanatory Memorandum for the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2012 at paragraph 3:
8. The first paragraph of the Explanatory Note to the Default Scheme Regulations has also been amended to highlight this point.

Equality Impact Assessment & Summary of Consultation Responses

9. When the Explanatory Memoranda were tabled on 5th December the Equality Impact Assessment and summary of consultation responses were provided as separate annexes and were accidentally not tabled alongside these documents. As a result they have been inserted into the Explanatory Memoranda and appear as annexes to the document – this has increased their length by approximately 70 pages.